Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Estyn
Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Cylch Meithrin Cei Newydd

**Y Caban**
**Cae Arthur**
**Cei Newydd**
**Ceredigion**
**SA45 9QQ**

**Dyddiad yr arolygiad: Rhagfyr 2024**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

**a**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Cylch Meithrin Cei Newydd

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Cylch Meithrin Cei Newydd |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal ddydd llawn |
| Person(au) cofrestredig | Kerry Ann Jones |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | |
| Person â gofal | Holly Beauchamp |
| Nifer y lleoedd | 19 |
| Amrediad oedran y plant | 2 – 4 mlwydd oed |
| Nifer y plant 3 a 4 mlwydd oed | 10 |
| Nifer y plant sy'n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar | 6 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | Dydd Llun i Ddydd Gwener 9 tan 3 |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Oes |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydy |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae'r gwasanaeth hwn yn rhagweld, yn nodi, ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth neu a allai ei ddefnyddio. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | Hydref 2021 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | 08/11/2016 |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 03/12/2024 |
| Nid oes un plentyn yn siarad Cymraeg ar yr aelwyd. | |

## Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| **Lles** | **Da** |
| **Dysgu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | |
| **Gofal a datblygiad** | **Da** |
| **Addysgu ac asesu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Yr amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Diffyg cydymffurfio

Ni chanfyddwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolwg yma.

## Argymhellion

A1 Gwella'r profiadau o ran hyrwyddo dealltwriaeth y plant o wahanol ddiwylliannau

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

**Lles: Da**

Mae gan bron bob plentyn lais cryf, a gwnânt ddewisiadau a phenderfyniadau'n hyderus wrth chwarae. Maent yn symud rhwng gwahanol weithgareddau'n hyderus ac yn dilyn eu diddordebau personol yn effeithiol. Er enghraifft, yn ystod amser canu a chyfarch, mae rhai o'r plant yn dewis eistedd yn y tŷ bach twt yn hytrach nag ar y mat, ac roedd hyn yn cael ei barchu. Maent yn sgwrsio'n hyderus gydag ymarferwyr gan wybod y byddant yn gwrando arnynt.

Mae bron bob plentyn yn cyrraedd y lleoliad yn hapus iawn ac maent yn gyfforddus yng ngofal yr ymarferwyr. Maent yn ymdopi'n dda iawn wrth wahanu oddi wrth eu rhieni a'u gofalwyr. Mae bron bob plentyn yn hollol gyfarwydd gyda threfniadau'r diwrnod. Er enghraifft, mae'r plant yn gwybod bod angen tacluso cyn mynd at y carped ar gyfer amser canu a chyfarch.

Mae bron bob plentyn yn ymddwyn yn dda iawn yn ystod cyfnodau chwarae rhydd ac yn ystod gweithgareddau grŵp. Mae llawer yn rhannu adnoddau'n dda ac yn dechrau deall sut i gymryd eu tro yn llwyddiannus, er enghraifft trwy gydweithio'n hapus yn y gegin fwd wrth symud llysiau cinio Nadolig o'r hambwrdd i'r sosbenni. Mae'r rhan fwyaf o blant yn ffurfio perthnasoedd cadarnhaol gydag ymarferwyr a'u ffrindiau ac yn hapus i fynd at yr ymarferwyr i chwarae neu am gysur. Mae nifer o'r plant yn ofalgar ac yn annwyl gyda'u cyfoedion ieuengaf, er enghraifft, wrth gynnig darllen stori iddynt. Mae bron bob plentyn yn gwrtais wrth ddewis eu bwyd amser byrbryd.

Mae bron bob plentyn yn mwynhau arbrofi ag amrywiaeth eang o gyfleoedd chwarae ysgogol. Mae bron bob plentyn yn mwynhau eu gweithgareddau chwarae a dysgu, ac maent yn chwilfrydig, er enghraifft, wrth drafod defnyddio brigau i osod tân yn yr ardal gartref. Maent yn mwynhau symud o un weithgaredd i'r llall, ac yn dyfalbarhau a chanolbwyntio am gyfnodau estynedig. Er enghraifft, maent wrth eu bodd yn chwarae yn y twba tywod yn chwilio am esgyrn dinosoriaid ac yn dathlu a rhannu eu llwyddiannau.

Maent yn cael dewis da o gyfleoedd chwarae rhydd yn y brif ystafell chwarae ac yn yr ardal allanol. Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu medrau annibyniaeth a hunangymorth da iawn. Er enghraifft, mae rhan fwyaf o'r plant yn medru rhoi eu cot ac esgidiau glaw ymlaen heb gymorth, yn ogystal ac arllwys llaeth a dwr o jwg i'w cwpan. Maent yn defnyddio'r toiled yn hyderus, ac yn golchi a sychu eu dwylo yn ddi-gymell.

**Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):**

Nid oes adroddiad ar ddysgu plant. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant tair neu bedair oed yn bresennol ar adeg yr arolygiad, nad ydynt yn derbyn addysg a ariennir rywle arall, y gellid adrodd arnynt heb adnabod plant unigol.

**Gofal a datblygiad: Da**

Mae ymarferwyr yn darparu gofal a chymorth da ar gyfer plant. Maent yn gweithredu polisïau priodol i hyrwyddo ffyrdd iach o fyw. Mae ymarferwyr yn hyrwyddo iechyd a lles plant yn effeithiol. Maent yn cynnig byrbrydau a diodydd iach a maethlon, sy'n cynnwys ffrwythau ffres, llaeth a dŵr. Mae'r lleoliad wedi cwblhau cynllun cyn-ysgol iach yn ogystal â derbyn hyfforddiant i gefnogi'r plant i frwsio dannedd yn ddyddiol.

Mae ymarferwyr yn adnabod y plant yn arbennig o dda ac mae ganddynt ddealltwriaeth dda o'u hanghenion a'u hoffterau. Er enghraifft, maent yn ymateb yn sensitif i blant sy'n dewis peidio â chymryd rhan mewn gweithgareddau grŵp.

Mae ymarferwyr wedi derbyn hyfforddiant ar ddiogelu plant, ac yn hyderus iawn ar sut i weithredu petai ganddynt bryderon am blentyn. Mae ymarferwyr yn nodi risgiau ac yn eu rheoli'n weithredol. Yn ogystal, maent yn dilyn gweithdrefnau ar gyfer cofnodi damweiniau neu anafiadau yn briodol. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae ymarferwyr yn deall y polisi rheoli ymddygiad, ac yn gweithredu fel modelau rôl da. Maent yn gwrando ar safbwyntiau plant, ac yn ymateb yn dda iddynt ar lafar neu'n ddi-eiriau. Mae ymarferwyr yn gyson wrth iddynt ganmol ymddygiad, gan esbonio wrth y plant pam maen nhw'n derbyn y canmoliaeth. Er enghraifft, pan fo plentyn yn defnyddio gair newydd neu'n cwblhau tasg, mae'r neges yn glir pob tro. Mae hyn yn ei dro yn cael ei rannu ar siart sticer sydd ar y wal ac yn cael ei ddathlu. Mae ymarferwyr yn rhyngweithio â'r plant yn gadarnhaol, gan ddangos cynhesrwydd a charedigrwydd. Maent yn ffurfio perthynas waith agos iawn gyda'r plant. O ganlyniad, mae'r plant yn dilyn cyfarwyddiadau'r ymarferwyr yn gyson. Mae ymarferwyr yn sensitif i anghenion a phrofiadau plant unigol.

Mae'r ymarferwyr yn hyrwyddo chwarae, dysgu a datblygiad y plant yn effeithiol iawn. Maent yn sicrhau bod y plant yn gartrefol ac yn hapus gan drafod cyfleoedd dysgu gyda'r plant pan yn briodol ac ddim yn amharu ar eu chwarae. Mae ganddynt ddealltwriaeth o'u cyfrifoldebau ac yn darparu cyfleoedd addas i blant ddatblygu yn ôl eu hoedran a'u gallu. Mae ymarferwyr yn dilyn prosesau effeithiol er mwyn adnabod a chefnogi anghenion unigol plant, gan gynnwys plant ag anghenion dysgu ychwanegol.

**Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da**

Mae dulliau addysgu brwdfrydig yr ymarferwyr yn sbarduno'r plant i gydweithio a dysgu'n llwyddiannus ac yn cael effaith bwrpasol ar eu dysgu a'u medrau. Mae ymarferwyr yn darparu profiadau dysgu a chwarae heriol, sy'n galluogi'r plant i fentro a datblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth yn dda. Er enghraifft, maent yn cymell y plant i drefnu siapiau yn ôl maint a lliw a gosod bwrdd yn drefnus.

Mae ymarferwyr yn ymyrryd yn synhwyrol yn ystod gweithgareddau gan annog y plant i arbrofi'n annibynnol wrth chwarae. Er enghraifft, mae'r plant yn mynd ati i gymharu nodweddion creaduriaid y môr a chreu hunanbortreadau ar sgrîn rhyngweithiol yn effeithiol. Mae ymarferwyr yn cynnal trafodaethau difyr â'r plant wrth iddynt chwarae. O ganlyniad, mae bron bob plentyn yn datblygu eu medrau

cymdeithasol yn effeithiol. Er enghraifft, mae’r ymarferwyr yn cymell plant i gydweithio wrth rifo ysgewyll, moron a thatws tra’n creu rysáit Nadolig, a defnyddio sialc a phaent ar y cyd i greu marciau ar fyrddau yn yr ardal allanol.

Mae ymarferwyr yn gweithredu cwricwlwm eang a chytbwys. Maent yn ymateb yn fuddiol i ddiddordebau’r plant, er enghraifft wrth addurno coeden Nadolig â thinsel a chorachod. Maent yn addasu eu cynllunio’n synhwyrol i sicrhau bod y plant yn dysgu trwy amrywiaeth o heriau ymarferol.

Mae ymarferwyr yn cynllunio cyfleoedd diddorol i ddatblygu medrau llafaredd y plant ac maent yn eu holi’n dda wrth iddynt chwarae. Gwneir hyn, er enghraifft, trwy roi cyfleoedd i’r plant drafod eu teimladau wrth gyrraedd y lleoliad ac wrth sgwrsio â’r plant wrth iddynt greu marciau ar lechi golau yn yr ardaloedd ysgrifennu cynnar. Mae’r ymarferwyr yn datblygu medrau rhifedd a digidol effeithiol ymysg y plant. Maent yn eu herio i adeiladu tyrau â siapiau 3D a defnyddio recordwyr llais tra’n canu a thrafod eu creadigaethau crefft.

Mae ymarferwyr yn defnyddio’u harsylwadau ar gyflawniadau’r plant yn effeithiol, ac mae hyn yn arwain yn dda at gynllunio’r camau nesaf yn nysgu plant unigol. Mae’r ymarferwyr yn darparu gwybodaeth fuddiol i rieni a gofalwyr am gyflawniadau eu plant ar lafar, mewn llyfrynnau cynnydd ac ar gyfryngau cymdeithasol diogel.

Mae ymarferwyr yn datblygu medrau corfforol y plant yn llwyddiannus. Maent yn eu hannog i ddringo ar gyfarpar anturus a gyrru beiciau o gwmpas yr ardal allanol. Yn ogystal, maent yn darparu gweithgareddau creadigol buddiol, fel cefnogi’r plant i adeiladu wal gyda blociau a sment, sydd wedi ei greu gan y plant trwy gymysgu tywod ac ewyn eillio. Mae ymarferwyr yn datblygu medrau ysbrydol, moesol a chymdeithasol y plant yn effeithiol. Maent yn hyrwyddo diwylliant Cymru’n dda, fel astudio hanes Santes Dwynwen, dathlu Dydd Gŵyl Dewi a thrafod nodweddion cestyll. Fodd bynnag, prin yw’r cyfleoedd i hyrwyddo dealltwriaeth y plant o amrywiaeth a diwylliannau eraill.

**Yr amgylchedd:  Da**

Mae arweinwyr yn darparu amgylchedd addas, diogel, a glân ar gyfer y plant. Maent yn sicrhau bod ymarferwyr yn gweithredu rhagofalon diogelwch yn effeithiol, fel gwirio’r ardal allanol i leihau unrhyw beryglon cyn i blant ei defnyddio. Mae arweinwyr ac ymarferwyr yn cwblhau rhestr wirio risgiau ar gyfer pob ardal yn ddyddiol ac yn cwblhau asesiadau risg yn briodol.

Mae’r amgylchedd yn gynhwysol ac mae bob plentyn yn cael mynediad cyfartal i’r holl adnoddau a gweithgareddau amrywiol. Mae’r amgylchedd yn caniatáu i blant ddefnyddio’r toiledau a defnyddio’r basnau golchi dwylo yn annibynnol. Mae arweinwyr yn dilyn trefniadau cyson ynglŷn â diogelwch yr amgylchedd ac mae trefniadau glanhau rheolaidd y neu lle, sy'n adlewyrchu arferion hylendid da. Mae eu harferion rheoli heintiau cadarn yn lleihau unrhyw risgiau i iechyd a diogelwch plant.

Mae prif ystafell y lleoliad yn groesawgar a chyfeillgar, ac yn cynnig amgylchedd effeithiol ar gyfer chwarae a dysgu. Mae arweinwyr yn gwneud defnydd da o’r ystafell a’r ardal allanol i ddarparu ardaloedd dysgu cyffrous a threfnus y gall plant eu defnyddio yn annibynnol. Er enghraifft, mae’r ardal chwarae rôl yn hyrwyddo

profiadau dysgu'r plant trwy gynnig adnoddau go iawn sydd wedi eu storio ar lefel isel. Mae arweinwyr ac ymarferwyr yn sicrhau bod y plant yn cael cyfle i ddefnyddio'r gofod chwarae yn yr awyr agored bob dydd. Maent yn sicrhau bod y plant yn cael chware tu allan pan maent yn dymuno gwneud.

Mae arweinwyr yn sicrhau y gall bron bob plentyn gael mynediad at amrywiaeth eang o ddodrefn, teganau ac offer sy'n briodol o ran eu hoedran ac o ansawdd da. Er enghraifft, mae basgedi a silffoedd agored i'r plant ymchwilio a llawer o ddodrefn naturiol ac o'r cartref ar gael. Mae'r arweinydd yn darparu rhywfaint o adnoddau annog chwilfrydedd plant am y gymdeithas ehangach ac mae adnoddau i hybu gwerthoedd aml-ddiwylliannol ymysg y plant. Mae'r plant yn medru creu eitemau yn y sied waith drwy ddefnyddio adnoddau fel morthwyl, hoelion a darnau pren. Mae'r profiadau hyn yn ymestyn gwybodaeth a datblygiad plant yn yr awyr agored drwy gynnig ystod dda o adnoddau sy'n ysgogi eu chwilfrydedd a'u diddordeb.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Mae gan arweinwyr weledigaeth gadarn ac maent yn cydweithio'n llwyddiannus i hyrwyddo gofal a chefnogi dysgu'r plant. Maent yn canolbwyntio'n glir ar ddatblygu'r ddarpariaeth yng nghyd â medrau a lles y plant yn eu gofal. O ganlyniad, mae eu harferion rheolaidd a'u hagweddau cadarnhaol yn creu amgylchedd ysgogol sy'n darparu profiadau diddorol i'r plant.

Mae arweinwyr yn darparu gofal tyner a bugeiliol i'r plant, sy'n creu ymdeimlad clòs o berthyn. Mae'r awyrgylch ofalgar hon yn cymell y plant i wneud eu gorau a dyfalbarhau wrth chwarae a dysgu. Yn ogystal, mae arweinwyr yn cynnal trafodaethau rheolaidd â'r rhieni a'r gofalwyr am ddatblygiad a chyflawniad eu plant. Defnyddiant gyfryngau cymdeithasol diogel yn ystyrlon i ddarparu gwybodaeth berthnasol iddynt.

Mae arweinwyr yn cydweithio'n gydwybodol fel tîm ac yn sicrhau fod pawb yn mynychu hyfforddiant defnyddiol i wella'u haddysgu a'u systemau gofal. Mae arweinwyr yn sicrhau bod dogfennau statudol, polisïau ac arferion y lleoliad yn cael eu hadnewyddu'n flynyddol. Mae'r Datganiad o Ddiben yn gywir ac yn adlewyrchu y gwasanaeth sydd yn cael ei gynnig. Maent yn sicrhau bod y prosesau ar gyfer goruchwylio, gwerthuso ac arfarnu gwaith a datblygiad yr holl ymarferwyr yn drwyadl.

Mae arweinwyr yn canolbwyntio'n dda ar gyflwyno gwelliannau cyson er mwyn datblygu arferion y lleoliad ymhellach. Maent yn cynnal gweithdrefnau hunanwerthuso trwyadl, sy'n arwain at dargedau defnyddiol ar gyfer gwelliant. O ganlyniad, maent yn adnabod cryfderau'r lleoliad a'r materion sydd angen sylw yn dda. Er enghraifft, yn ddiweddar, mae arweinwyr wedi canolbwyntio'n bwrpasol ar gynllunio gweithgareddau a chanllawiau i fireinio a chyfoethogi'r cwricwlwm a hybu lles y plant.

Mae arweinwyr yn sicrhau ystyriaeth lawn i farn pawb sy'n ymwneud â'r lleoliad. Maent yn cynnal trafodaethau buddiol â'r holl rhanddeiliaid i wella'r ddarpariaeth a phrofiadau'r plant, ac yn gweithredu ar awgrymiadau swyddogion yr asiantaethau cefnogi. Yn sgîl hyn, maent yn llwyddo i ddarparu profiadau amrywiol i blant i ddatblygu eu medrau llafar yn y Gymraeg ac i asesu deilliannau'r plant yn rheolaidd.

Mae arweinwyr yn dilyn prosesau recriwtio diogel ac yn dyrannu adnoddau'n dda. Maent yn defnyddio'r gyllideb yn ofalus ac yn blaenoriaethu gwariant yn erbyn targedau'r lleoliad yn ddoeth. Yn ogystal, maent yn cyllido adnoddau amrywiol yn ddeallus, fel caledwedd digidol, pabell yn yr ardal dawel a chyfarpar newydd yn yr ardaloedd allanol.

Mae gan yr arweinwyr berthynas lwyddiannus â'r ysgol ac mae hyn yn paratoi'r plant ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg yn fwriadus. Mae arweinwyr ac ymarferwyr yn datblygu ymwybyddiaeth y plant o'u cynefin yn dda, ac maent yn defnyddio'r ardal gyfagos yn bwrpasol. Er enghraifft, mae'r ymarferwyr a'r plant yn ymweld â'r harbwr a'r traeth, y parc a siop y pentref ac yn gwahodd swyddogion o'r gwasanaethau brys i'r lleoliad i gyfoethogi dysgu'r plant.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 07/02/2025